




Prosiect Abergelli Power:
Cynnig i adeiladu gorsaf bŵer
nwy yn Fferm Abergelli,
Felindre, Abertawe

Abergelli Power Limited
Ionawr 2018



Y Prosiect

Mae Abergelli Power Limited (APL) yn cynnig datblygu gorsaf bŵer nwy ar dir gerllaw Gorsaf Gywasgu Nwy Felindre yn Fferm Abergelli, Felindre, Abertawe (y "Prosiect") Mae'r Prosiect yn cynnwys Gwaith Cynhyrchu Pŵer a'i gysylltiadau trydanol a nwy. Byddai gan y Prosiect allbwn trydanol o hyd at 299MW.

Aed â'r Prosiect trwy gamau cyntaf proses ymgynghori'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu ("DCO") yn 2014. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2015, cafodd ei atal dros dro oherwydd ansicrwydd ynghylch y farchnad. O dan berchnogaeth newydd y cwmni ynni o'r DU, Drax Group ccc, erbyn hyn mae'r Prosiect yn cael ei ddatblygu unwaith eto.

Bydd y Gwaith Cynhyrchu Pŵer yn gallu cynhyrchu hyd at 299 MW o drydan, sy'n ddigon i bweru'r hyn sy'n cyfateb i 150,000 o gartrefi. Gan ddefnyddio'r dechnoleg gynhyrchu pŵer ddiweddaraf a mwyaf effeithlon, bydd

yn llosgi nwy naturiol i gynhyrchu trydan a gyflenwir i'r Grid Cenedlaethol. Bwriedir i'r Prosiect ddarparu pŵer wrth gefn i'r Grid Cenedlaethol a chefnogi ymgyrch y Llywodraeth i gyflawni economi carbon isel. Gellir canfod rhagor o wybodaeth am y Prosiect yn www.abergellipower.co.uk.

Byddai'n creu hyd at 150 o swyddi yn ystod y gwaith adeiladu, hyd at 15 o swyddi medrus llawn amser ar ôl gweithredu a byddai'n cyfrannu miliynau o bunnoedd i'r economi leol yn ystod y cyfnod adeiladu trwy gyfleoedd caffael lleol.



Pam Fferm Abergelli?


Mae gan y safle'n agos i rwydweithiau trosglwyddo nwy a thrydan cenedlaethol; ac

- Mae'r safle'n agos i rwydweithiau trosglwyddo nwy a thrydan cenedlaethol; ac
- Mae'r Grid Cenedlaethol yn annog datblygu newydd i gynhyrchu trydan yn ne Cymru, yn agos i brif ffynonellau'r galw am drydan yn y DU.

Darlun gweledol o'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer gyda thyrbîn seagl a stac. Trefnir y bydd darluniau gweledol ychwanegol ar gael yn yr arddangosfa gyhoeddus ac wedyn ar wefan y prosiect.

Prif Elfennau'r Prosiect

- Adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw Gwaith Cynhyrchu Pŵer Tyrbin Nwy Cylch Agored (a elwir hefyd yn Dyrbin Nwy Cylch Syml) ag allbwn trydanol graddedig o hyd at 299 MW o drydan;
- Bydd y Gwaith Cynhyrchu Pŵer yn cynhyrchu trydan gan ddefnyddio nwy naturiol; mae wedi'i gynllunio i ddarparu gallu cynhyrchu hyblyg wrth gefn, a all ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i amrywiad tymor byr yn y galw am drydan, allbwn ysbeidiol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a chyfnodau o straen ar y system;
- Gallai'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer weithredu am hyd at uchafswm o 2,250 o oriau mewn unrhyw flwyddyn benodol, ar yr amod nad yw'r cyfartaledd treigl 5 mlynedd yn fwy na 1,500 o oriau'r flwyddyn;
- Bydd gan y Gwaith Cynhyrchu Pŵer un stac a fydd hyd at 45m o uchder;
- Bydd y Prosiect yn cynnwys adeiladu cysylltiad trydanol tanddaearol newydd i Is-orsaf Gogledd Abertawe sydd gerllaw. Ni fydd y cais arfaethedig am DCO yn cynnwys pwerau i awdurdodi adeiladu'r cysylltiad trydanol, ond bydd yn cynnwys pwerau caffael gorfodol ar gyfer tir a hawliau sy'n ofynnol ar gyfer y cysylltiad trydanol, fel y'i trafodwyd yn ystod Cynllunio a'r Ymgynghoriad Cyhoeddus;
- Bydd y Prosiect yn cynnwys adeiladu lein beipiau newydd o dan y ddaear i ddod â nwy naturiol i'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer o'r System Drosgrwyddo Nwy Genedlaethol. Ni fydd y cais arfaethedig am DCO yn cynnwys pwerau i awdurdodi adeiladu'r cysylltiad nwy ond bydd yn cynnwys pwerau caffael gorfodol ar gyfer tir a hawliau sy'n ofynnol ar gyfer y cysylltiad nwy, fel y'u trafodwyd yn ystod Cynllunio a'r Ymgynghoriad Cyhoeddus;
- Estyniad i ffordd fynediad bresennol o'r B4489;
- Llecyn Liniaru'r Effaith ar Ecolleg
- Bydd y Prosiect yn creu oddeutu 150 o swyddi yn ystod cyfnod adeiladu fydd yn para am ddwy flynedd a hyd at 15 o swyddi parhaol ar ôl i'r prosiect ddod yn weithredol;
- Gallai'r gwaith ddechrau gweithredu yn 2022, yn amodol ar ymgynghori â'r cyhoedd, ac amodau cynllunio a marchnad.



Cynllunio ac Ymgynghori â'r Cyhoedd

Bydd capasiti'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer yn uchafswm o 299 MW o drydan ac felly fe'i ystyrir yn brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) o dan Ddeddf Cynllunio 2008, sy'n golygu bod angen DCO i'w adeiladu, ei weithredu a'i gynnal. Cyflwynir cais am DCO i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (yr "Ysgrifennydd Gwladol") trwy'r Arolygiaeth Gynllunio. Caiff y cynigion eu harchwilio gan Awdurdod Archwilio (a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol), a fydd yn gwneud argymhelliad ar gyfer penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yng nghyd-destun gorsafoedd cynhyrchu yng Nghymru sydd â chapasiti cynhyrchu is na 350MW, mae Deddf Cynllunio 2008 yn cyfyngu ar yr hyn y gellir gwneud cais amdano drwy'r broses DCO i ddatblygiad sy'n rhan annatod o'r NSIP ac yn ffurfio rhan ohono. Ar gyfer y Prosiect, yr elfennau annatod yw'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer, y Llecyn Storio/Cwrt Cynnal a'r Ffordd Fynediad.

Yn yr achos hwn, ni fydd cais APL am DCO yn ceisio caniatâd i adeiladu a gweithredu'r cysylltiadau nwy neu drydan, yn hytrach gwneir ceisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu defnyddir hawliau datblygu a ganiateir (fel sy'n gymwys). Fodd bynnag, cynigir cynnwys pwerau caffael gorfodol ar gyfer y tir a'r hawliau sy'n ofynnol i adeiladu, gweithredu a chynnal y cysylltiadau nwy a thrydan o fewn y cais am DCO.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y broses ymgeisio am DCO ar gael ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio (<http://infrastructure.planningportal.gov.uk>).

Mae ymgynghori â phobl, busnesau a sefydliadau lleol yn rhan hanfodol o'r broses ymgeisio am DCO ac mae'n helpu i lywio cynllun terfynol y Prosiect.

Cynhaliwyd cam cychwynnol o ymgynghori statudol ym mis Hydref/Tachwedd 2014, a chyn hynny, cafwyd cyfnod o ymgynghori anffurfiol a ddechreuodd ym mis Mai 2014. Yn ystod y ddau gam ymgynghori yn 2014, rhannodd APL ei gynlluniau â thrigolion a busnesau lleol mewn sawl ffordd: y cyfryngau lleol, tafenni gwybodaeth, arddangosfeydd a gynhaliwyd yn Llanyfelach, Clydach, Felindre a Thircoed, cyfarfodydd gyda chynghorwyr lleol a

thrwyr rhyngwrwyd. Fe wnaeth APL adolygu ac ymateb i'r adborth a gafwyd, ac mae wedi ystyried y sylwadau wrth ddatblygu'r Prosiect.

Fe wnaeth y gwahanol weithgareddau ymgynghori yn ystod 2014 helpu i lywio datblygiad y Prosiect ac arweiniodd hynny at benderfyniad APL i:

- Leihau'r nifer o staciau o uchafswm o bump i un;
- Newid uchafswm uchder y staciau o 40m i 45m;
- Cydgrynhoi Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu i'r gogledd o'r Prif Gyflenwad Dŵr;
- Dewis llwybr mynediad o'r B4489 i'r gorllewin o'r Cyfarpar Cynhyrchu yn lle'r llwybr mynediad o'r gogledd; a
- Dewis opsiwn cebl tanddaearol ar gyfer y Cysylltiad Trydan, yn hytrach nag opsiwn llinell uwchben.


Additionally, APL has undertaken detailed technical and environmental studies, and associated design work to refine the design of the Project.

Yn ogystal, mae APL wedi ymgymryd ag astudiaethau technegol ac amgylcheddol manwl, a gwaith cynllunio cysylltiedig i fireinio cynllun y Prosiect.

Bydd ail gam yr ymgynghoriad cyhoeddus statudol yn dechrau ar 16 Ionawr 2018 a bydd yn dod i ben ar 19 Chwefror 2018. Mae hyn yn cynnig cyfle ychwanegol i chi roi sylwadau ar y Prosiect.

Mae APL yn parhau i ymgysylltu â chyrrff megis Dinas a Sir Abertawe (CCS), Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW), Cynghorau Cymuned ac Aelodau'r Cynulliad a'r AS lleol er mwyn sicrhau bod y Prosiect yn cael ei gynllunio, ei adeiladu, ei weithredu a'i gynnal gan gyflawni'r safonau diogelwch ac amgylcheddol perthnasol a chyfredol uchaf ac i gasglu adborth gan y gymuned leol.

Cynllun Elfennau'r Prosiect



Cynllun dangosol sy'n dangos prif elfennau'r Prosiect

Eglurhad

 Ffin Safle'r Prosiect	 Lleoliad Dangosol AGI
 Cynllun dangosol sy'n dangos prif elfennau'r Prosiect	 Coridor y Ffordd Fynediad yn Unig
 System Genedlaethol Trawsyrro Nwy	 Llecyn Lliniaru'r Effaith ar Ecoleg
 Llwybr Dangosol y Cysylltiad Nwy	 Coridor Llwybr y Cysylltiad Trydanol a Choridor y Ffordd Fynediad
 Llwybr Dangosol y Cysylltiad Trydanol	 Tŵr Trawsyrro Trydan
	 Gorsaf Cywasgu Nwy Bresennol
	 Isorsaf Trydan Bresennol Gogledd Abertawe
	 Coridor Llwybr y Cysylltiad Nwy
	 Safle'r Offer Cynhyrchu a'r Llecyn Storio

Yr Angen i Gynhyrchu Gan Ddefnyddio Nwy

Mae Datganiad Troswfaol y Llywodraeth ar Bolisi Cenedlaethol ar gyfer Ynni (NPS EN-1) yn datgan "... bydd nwy yn parhau i wneud cyfraniad pwysig yn y sector trydan - gan ddarparu hyblygrwydd hanfodol i gefnogi lefel gynyddol o gynhyrchu carbon isel ac i sicrhau diogelwch y cyflenwad."

Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Ynni Cymru: Newid i Economi Carbon Isel' yn datgan "... yn y tymor byr, bydd ynni nwy, niwclear a bio yn darparu'r ynni i wneud iawn am natur ysbeidiol y cyflenwad o adnoddau adnewyddadwy".

Mae nwy naturiol yn ffynhonnell ddibynadwy o danwydd ac mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei fod yn hanfodol i gefnogi economi carbon isel ac mae'n sail i ddiogelwch ynni'r wlad. Yn wyneb cau nifer o weithfeydd cynhyrchu trydan glo a niwclear sy'n heneiddio ledled y DU, mae angen buddsoddi mewn technoleg ddibynadwy, garbon isel. Yn ychwanegol, mae nwy yn darparu cymorth wrth gefn i gynhyrchu pŵer o ffynonellau adnewyddadwy, yn arbennig pŵer gwynt a haul - sy'n ffynonellau cynyddol gyffredin, ond ysbeidiol, o ynni sy'n dibynnu ar y gwynt yn chwythu neu'r haul yn disgleirio. Mae gweithfeydd pŵer modern sy'n llosgi nwy ymhlith y dulliau mwyaf effeithlon a glanaf o gynhyrchu pŵer trydan. Mae'r angen am y Prosiect wedi'i sefydlu trwy bolisi'r Llywodraeth ac felly nid yw APL yn ymgynghori ynghylch hynny fel rhan o'r ymgynghoriad statudol ar gyfer y Prosiect.

Buddion i'r Gymuned

Byddai'r prosiect £100m hwn yn fuddsoddiad sylweddol yn yr ardal a byddai'n darparu manteision economaidd sylweddol am gyfnod o 25 mlynedd o leiaf, gan gynnwys:

- Creu hyd at 150 o swyddi yn ystod cyfnod adeiladu o 2 flynedd;
- Creu hyd at 15 o swyddi medrus parhaol ar gyfer gweithredu a chynnal y cyfleuster yn barhaus; a
- Cyfleoedd busnes posibl ar gyfer cyflenwyr lleol.

Bydd APL yn ymgynghori â CCS ynghylch dulliau o ddoed â buddion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach i'r ardal gyfagos.

Yr amgylchedd

Mae camau APL i liniaru effeithiau'r Prosiect ar yr amgylchedd lleol yn ystod ei gyfnodau adeiladu, gweithredu a chynnal yn rhan bwysig o'r broses ymgynghori a chynllunio.

Oherwydd natur a maint y Prosiect, fe'i ystyrir yn ddatblygiad ble ceir Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) ac mae APL yn ymgymryd ag EIA sy'n ystyried effeithiau posibl y Prosiect. Mae'r Prosiect yn dod o dan Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009 ("Rheoliadau EIA 2009") ac nid y Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017 ("Rheoliadau EIA 2017"). Mae hyn oherwydd bod APL wedi gofyn am farn cwmpasu gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn 16 Mai 2017 Mae hyn yn golygu, yn unol â'r darpariaethau trosiannol yn Rheoliad 37 (2) (a) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017, bydd Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009 yn parhau i fod yn gymwys i'r cais gan APL am DCO.

At ddiben ymgynghori, mae APL wedi paratoi Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR 2018) ar gyfer y Prosiect a chrynodeb annhechnegol o PEIR 2018.

Mae PEIR 2018 yn nodi'r effeithiau posibl dilynol, a bydd pob un ohonynt yn cael ei leihau, lle mae'n ymarferol, drwy'r broses gynllunio derfynol a nifer o fesurau rheoli, gan gynnwys:

- Trafniadaeth - effeithiau posibl ar y rhwydwaith lleol a achosir gan draffig adeiladu, wedi'u cyfyngu i'r cyfnodau adeiladu a datgomiysyn;
- Ansawdd aer, allyriadau a sŵn - effeithiau posibl sy'n deillio o weithgareddau adeiladu ac yn ystod gweithredu'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer;
- Effeithiau gweledol ar yr amgylchedd hanesyddol - cyflwyno un stac sy'n mesur hyd at 45m o uchder i mewn i'r dirwedd leol; ac
- Ecoleg leol - effeithiau posibl a chyfluoedd i wella'r cynefin lleol trwy ragor o blannu.

Eich Barn?

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 19 Chwefror 2018 a byddai APL yn croesawu'ch barn ar neu cyn y dyddiad hwn. Cynhwyswch eich enw a'ch cyfeiriad. Gellir gwneud ymatebion yn gyhoeddus, yn amodol ar ddeddfau diogelu data.

Hoffai APL wahodd eich barn am:

- Y Gwaith Cynhyrchu Pŵer, fel y'i cynigir ar hyn o bryd, gan gynnwys newidiadau ers ymgynghoriad 2014;
- Yr opsiwn/opsiynau o ran llwybr arfaethedig ar gyfer y Ffordd Fynediad; a
- Chanfyddiadau rhagarweiniol yr asesiad o ran effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol y Prosiect.

Gallwch chi roi eich barn i APL trwy sawl ffordd:

- Trwy Ffurflen Adborth RHADBOST, sydd wedi'i hatodi i'r daflen hon;
- Mewn cyfres o arddangosfeydd, i'w cynnal yn yr ardal leol. Bydd aelodau tîm APL wrth law i drafod y Prosiect yn fanwl â chi;
- Trwy e-bost, rhabost a dros y ffôn, gallwch ofyn cwestiynau neu wneud sylwadau. Gweler yr adran **Sut i Gysylltu**; ac
- Mewn cyfarfodydd a sesiynau briffio gyda'ch cynrychiolwyr lleol.

Rhagor o Wybodaeth sydd Ar Gael

Gellir gweld y dogfennau hyn ar wefan Abergelli Power (www.abergellipower.co.uk) o 16 Ionawr 2018.

Hefyd mae'r dogfennau ar gael i'w gweld yn rhad ac am ddim o 16 Ionawr 2018 tan 19 Chwefror 2018 yn y llyfrgelloedd dilynol (mae amseroedd agor yn amrywio):

- **Llyfrgell Ganolog Abertawe**, Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN, Rhif Ffôn 01792 636464
- **Llyfrgell Clydach**, Y Stryd Fawr, Clydach, Abertawe, SA6 5LN, Rhif Ffôn 01792 843300
- **Llyfrgell Gorseinon**, 15 Stryd y Gorllewin, Gorseinon, Abertawe SA4 4AA, Rhif Ffôn (01792) 516780
- **Llyfrgell Treforys**, Hel Treharne, Treforys Abertawe SA6 7AA, Rhif Ffôn (01792) 516770
- **Llyfrgell Pontarddulais**, Rhodfa San Mihangel, Pontarddulais, SA4 8TE, Rhif Ffôn 01792 882822

Sylwer y bydd yr atodiadau technegol i PEIR 2018 ar gael ar ffurf electronig yn unig yn y lleoliadau uchod, ond bydd copi wedi'i brintio ar gael i'w weld yn yr arddangosfeydd.

Arddangosfeydd yn yr Ardal Leol

Bydd aelodau tîm APL hefyd yn bresennol mewn pedair arddangosfa leol o 7 Chwefror 2018 i 10 Chwefror 2018 fel gall y sawl sy'n byw yng nghyffiniau'r Prosiect, neu'r grwpiau a'r sefydliadau hynny a allai fod â barn am y Prosiect, ganfod rhagor o wybodaeth a darparu unrhyw sylwadau sydd ganddynt i APL. Rhestrir yr arddangosfeydd isod:

- Neuadd yr Eglwys Llangyfelach, Heol Abertawe, Llangyfelach, Abertawe SA5 7JA
Dydd Mercher 7 Chwefror, 16:00 - 19:00
- Canolfan Adnoddau Forge Fach, Heol Hebron, Clydach, Abertawe SA6 5EJ
Dydd Iau 8 Chwefror, 15:30 – 18:30
- Neuadd Bentref Tircoed, Y Cyswllt, Tircoed SA4 9QZ
Dydd Gwener 9 Chwefror, 17:00 - 20:00
- Neuadd Les Felindre, Felindre, Abertawe SA5 7NA
Dydd Sadwrn 10 Chwefror, 10:00 – 13:00

Mae copiau o Grynodedb Annhechnegol PEIR 2018 a'r daflen ymgynghori hon hefyd ar gael yn Gymraeg ar wefan y Prosiect, a byddant ar gael i'w gweld yn yr arddangosfeydd ac yn y llyfrgelloedd a restrir uchod.

Sut i Gysylltu

Mae'r manylion cysylltu ar gyfer APL fel sy'n dilyn:

Ffôn 01792 957 026
E-bost info@abergellipower.co.uk
Gwefan www.abergellipower.co.uk
Post Rhadpost ABERGELLI POWER

Cynhwyswch eich enw a'ch cyfeiriad. Gellir gwneud ymatebion yn gyhoeddus, yn amodol ar ddeddfau diogelu data.

Camau Nesaf

Ar ôl i'r Ymgynghoriad Statudol ddod i ben, bydd APL yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd wrth ddatblygu'r asesiad technegol ac amgylcheddol manwl, a'r gwaith cynllunio cysylltiedig, er mwyn mireinio cynllun y Prosiect tuag at gyflwyno'r cais am DCO.

Ffurflen Ymateb Radbost

(Llenwch mewn PRIFLYTHRENNAU BLOC)

Postiwch y ffurflen ymateb wedi'i llenwi (yn rhad ac am ddim) erbyn 19 Chwefror 2018 at Abergelli Power Ltd yn y cyfeiriad dilynol:
Rhadbost ABERGELLI POWER

Enw:

Cyfeiriad:

E-bost:

Rwy'n bwriadu mynychu'r digwyddiadau arddangos dilynol:

Neuadd Bentref Llangyfelach

Neuadd Les Felindre

Canolfan Adnoddau Forge Fach, Clydach

Neuadd Bentref Tircoed

A wnaethoch roi sylwadau yn ystod y cam ymgynghori blaenorol?

Do

Naddo, doeddwn i ddim yn ymwychu o'r Prosiect

Naddo, wnes i ddim rhoi sylwadau am reswm arall

(rhanwch isod)

.....
.....
.....
.....
.....

Ar y dechrau, ymgynghorodd APL â'r gymuned leol a rhanddeiliaid ar y Prosiect yn 2014. Ers hynny, rydym wedi ystyried rhagor o wybodaeth ac wedi paratoi Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol sy'n nodi buddion ac effeithiau posibl. A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch ein canfyddiadau rhagarweiniol?

.....
.....
.....

Os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch ein Prosiect, neu unrhyw wybodaeth arall y dylem fod yn ymwychu ohoni, rhanwch hynny isod.

.....
.....
.....

Beth yw eich barn chi am y cynnig hwn i adeiladu'r Prosiect?

Cefnogol

Niwtral

Gwrthwynebu

Ansicr

Os hoffech roi rhagor o sylwadau am y Prosiect, parhewch ar daflenni ychwanegol ac anfonwch nhw i'r cyfeiriad rhadbost neu cysylltwch â ni trwy ein cyfeiriad e-bost info@abergellipower.co.uk. Diolch.

Bydd APL yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a ddarperir yn y ffurflen adborth hon mewn cysylltiad â'r broses ymgynghori a'r cais cynllunio arfaethedig yn unig. Efallai bydd ymatebion ar gael i'r cyhoedd, ond bydd manylion personol yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Nid oes rhaid i ymatebwyr ddarparu unrhyw wybodaeth bersonol, ond bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i ddeall yr ystod o ymatebion, ac i ddarparu diweddariadau ynghylch y prosiect a chanlyniad yr ymgynghoriad. Pan fyddwn yn defnyddio trydydd partion i gefnogi'r broses hon, efallai byddwn yn rhannu'r ffurflen adborth â hwy, ond dim ond yn unol â rhwymedigaethau cyfrinachedd a diogelu data.

Plygwch yma i'w llynu cyn anfon



Rhadbost BERGELLI POWER

